# Yswiriant

Eich helpu i edrych ar ôl y pethau sy'n bwysig





NatWest

Helpful Banking

# Croeso i NatWest

## Oes angen i chi drefnu yswiriant?

Ni all neb ddyfalu beth sy'n dod nesaf. Dyna pam y mae'n bwysig gwybod eich bod chi a'ch teulu, eich cartref a'ch eiddo'n ddiogel.

Pan gymerwch chi yswiriant gyda NatWest, byddwn ni'n helpu i'ch diogelu rhag llawer o risgiau beunyddiol bywyd. Felly ni fydd raid i chi boeni mwyach am yr hyn allai ddigwydd.

Mae'r tabl ar dudalen 3 yn dangos i chi'r gwahanol bolisïau sydd gennym ni a'r buddion allweddol maen nhw'n eu cynnig. Ac ar ôl i chi benderfynu, mae'n hawdd iawn gofyn am ddyfynbris neu drefnu yswiriant. Y cyfan mae'n rhaid i chi ei wneud yw mynd i'ch cangen agosaf, mynd ar lein ar natwest.com/insurance neu ein ffonio ni i gael mwy o wybodaeth.

# Pa fath o bolisi mae ei angen arnoch chi?

| Os ydych chi'n chwilio am… | Bydd hwn yn rhoi i chi… | Cewch wybod mwy ar dudalen… |
|---|---|---|
| Yswiriant cartref | • Newydd yn lle hen (ac eithrio dillad)<br>• Llinell gymorth 24 awr y dydd ar gyfer argyfyngau cartref<br>• Mwy o ostyngiadau ar eich premiwm cynnwys am gloeon, bolltau a larwm bwrgleriaeth sydd wedi'u cymeradwyo | 4 |
| Yswiriant car | • Hyd at 65% o ostyngiad dim hawliadau<br>• Lleihau'ch premiwm gyda'n dewis hyblyg o symiau tâl dros ben<br>• Llinell gymorth 24 awr y dydd ar gyfer damweiniau<br>• Hyd at £1,000 o yswiriant ar gyfer eich offer sain, llywio â lloeren ac adloniant sydd wedi'u gosod yn barhaol yn y car (Cyfun a Thrydydd Parti, Tân a Lladrad yn unig) | 6 |
| Yswiriant teithio | • Cewch ddewis o yswiriant un daith, yswiriant blynyddol aml-daith neu yswiriant arhosiad hir<br>• Yswiriant i'r teulu cyfan<br>• Cewch ddewis rhwng yswiriant ar gyfer Ewrop yn unig neu'r byd i gyd<br>• Yswiriant dewisol 22 diwrnod ar gyfer chwaraeon gaeaf | 7 |
| Yswiriant Bywyd | • Mae Aswiriant Tymor Cyson yn darparu swm o arian i'ch teulu pe baech chi'n marw yn ystod cyfnod y polisi<br>• Bydd Aswiriant Tymor Gostyngol yn helpu i ad-dalu benthyciad neu forgais lle mae'r swm sy'n ddyledus yn lleihau dros amser | 8 |
| Yswiriant Salwch Difrifol | • Swm o arian os ewch yn ddifrifol sâl | 9 |
| Cynllun Yswiriant Bywyd Gwarantedig (i bobl 50–75 oed) | • Swm o arian i'ch teulu pan fyddwch yn marw<br>• Yswiriant gwarantedig am weddill eich bywyd | 10 |
| Diogelu Incwm | • Incwm misol os na allwch weithio oherwydd y rhan fwyaf o fathau o salwch neu anaf damweiniol | 11 |

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 14.

Nawr cewch ddarllen mwy am yr yswiriant sydd ar gael >

**I gael gwybod mwy, neu i gael dyfynbris**

natwest.com/insurance

Gweler y dudalen gefn i gael manylion cyswllt

Ewch i'ch cangen agosaf

# Yswiriant Cartref

## Diogelu'ch cartref a'ch eiddo

Mae yswiriant cartref NatWest yn darparu diogelwch i'ch cartref a'i gynnwys. Ac oherwydd bod anghenion pawb yn wahanol, gallwch ddewis o blith yr ystod o gynhyrchion rydym ni'n eu cynnig.

### Yswiriant cynnwys Essentials

Os ydych chi'n byw mewn llety ar rent bydd ein hyswiriant cynnwys Essentials yn caniatáu i chi ddewis yr eitemau unigol yr hoffech eu diogelu, sy'n golygu na fyddwch yn talu am yswiriant nad oes ei angen arnoch.

**Wedi'i danysgrifennu gan UK Insurance Limited**

### Yswiriant Cartref Safonol ac Yswiriant Cartref Elite oddi wrth NatWest

Mae ein polisi yswiriant cartref yn llawn dop o nodweddion a buddion gwych. Rhestrir rhai ohonyn nhw isod.

defaqto 2010 ★★★★ HOME INSURANCE

- **Talu'n fisol heb gost ychwanegol 0.0% APR yn nodweddiadol, yn amodol ar gymhwysedd a chytundeb credyd, pobl dros 18 oed yn unig**
- **Mwy o ostyngiad ar eich premiwm cynnwys os oes gennych chi gloeon, bolltau a larwm bwrgleriaeth sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni**
- **Rhoi 'newydd yn lle hen' (ac eithrio dillad)**
- **Yswiriant rhag difrod damweiniol i beiriannau chwarae DVD, setiau teledu, offer sain a chyfrifiaduron cartref gydag yswiriant cynnwys**
- **Llinell gymorth 24 awr y dydd ar gyfer argyfyngau cartref**
- **Cynghorwyr arbenigol ar hawliadau mewn canolfannau galwadau yn y Deyrnas Unedig yn unig**

### Yswiriant Cartref Elite

Mae yswiriant cartref Elite yn cynnig hyn i gyd i chi a byddwch yn cael lefelau yswiriant uwch fel yswiriant adeiladau diderfyn a hyd at £10,000 o yswiriant ar gyfer offer busnes yn eich cartref. Hefyd, gyda graddfa Defaqto 5 seren, gallwch fod yn sicr bod ein hyswiriant cartref Elite yn cynnig yswiriant o ansawdd da i chi.

defaqto 2010 ★★★★★ HOME INSURANCE

**I gael gwybod mwy, neu i gael dyfynbris**

natwest.com/insurance

0800 051 0437

Ewch i'ch cangen agosaf

# Yswiriant Car

## Yswiriant i'ch car am y pris iawn

Os ydych yn yswirio'ch car gydag Yswiriant Car NatWest gallech chi gael premiwm is heb gyfaddawdu ar yr yswiriant. Hefyd, gyda'r buddion gwych a restrir isod, pam na ffoniwch ni heddiw i gael dyfynbris?

- **Cynigion arbennig ar gael ar ein hyswiriant car i aelodau Advantage (Mae ffioedd misol yn daladwy)**
- **Gostyngiad dim hawliadau o hyd at 65%, hyd at 70% os ydych chi'n hŷn na 50 oed (Mae'r gostyngiad yn amodol ar leiafsymiau premiymau)**
- **Gwasanaeth achub 24 awr y dydd ar ôl damweiniau yn safonol ar bob polisi cyfun**
- **Hyd at £1,000 o yswiriant ar gyfer eich offer sain, llywio â lloeren ac adloniant sydd wedi'u gosod yn barhaol yn y car (Cyfun a Thrydydd Parti, Tân a Lladrad yn unig)**
- **Cynghorwyr arbenigol ar hawliadau mewn canolfannau galwadau yn y Deyrnas Unedig yn unig**
- **Car arall am ddim am gyfnod y gwaith atgyweirio, os oes un ar gael, pan rydych chi'n defnyddio gwasanaeth atgyweirio wedi'i gymeradwyo (Yswiriant cyfun yn unig)**

Mae pob polisi'n amodol ar leiafsymiau premiymau.

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 14.

**Wedi'i danysgrifennu gan UK Insurance Limited**

**I gael gwybod mwy, neu i gael dyfynbris**

natwest.com/insurance

0800 051 0437

Ewch i'ch cangen agosaf

# Yswiriant Teithio

## Yswiriant wrth fynd o le i le

Rydym ni'n darparu yswiriant gwych ar gyfer gwyliau teuluol a theithiau busnes. Gallwch ddewis o blith ystod o bolisïau, o yswiriant un daith, yswiriant aml-daith blynyddol ac yswiriant arhosiad hir, o yswiriant ar gyfer Ewrop yn unig i yswiriant ar gyfer y byd cyfan.

- **Llinell gymorth 24 awr y dydd ar gyfer argyfyngau, sy'n cynnig cyngor cyn i chi deithio a chymorth mewn argyfwng pan rydych chi i ffwrdd**
- **Gallwch yswirio'r teulu cyfan – a gall pawb a enwir ar y polisi deithio'n annibynnol (Nid yw teithio'n annibynnol ar gael ond ar bolisïau blynyddol)**
- **Yswiriant dewisol 22 diwrnod ar gyfer chwaraeon gaeaf**
- **Neu, os oes gennych gyfrif Advantage eisoes, edrychwch ar yr yswiriant teithio sydd eisoes wedi'i gynnwys (Mae ffioedd misol yn daladwy)**

Cofiwch, nid oes unrhyw daliadau comisiwn pan brynwch arian tramor neu sieciau teithio arian tramor oddi wrthym ni.

**Wedi'i danysgrifennu gan UK Insurance Limited**

# Yswiriant Bywyd

## Diogelu dyfodol eich teulu

Gydag Yswiriant Bywyd NatWest byddwch yn dawel eich meddwl y byddai'ch teulu'n cael swm o arian i helpu i roi iddynt y cymorth ariannol y byddai arnyn nhw ei angen at y dyfodol, pe baech chi'n marw.

Fel arfer defnyddir Aswiriant Tymor Cyson i roi diogelwch ariannol i'ch teulu rhag ofn i chi, neu'ch partner, farw.

Defnyddir Aswiriant Tymor Gostyngol amlaf i yswirio morgais neu fenthyciad lle mae'r swm sy'n ddyledus yn gostwng dros amser.

Nid oes iddo werth o ran ei gyfnewid am arian a bydd eich yswiriant yn dod i ben os na chaiff y premiymau eu talu. Mae cyfyngiadau oed yn berthnasol.

- **Mae swm gwarantedig o arian yn daladwy os ydych chi'n marw yn ystod cyfnod eich polisi**
- **Mae gwarant na fydd premiymau yswiriant bywyd byth yn codi**
- **Mae yswiriant ar gael am gyn lleied â £6 y mis**
- **Cewch wneud cais dros y ffôn heddiw**

### Ydych chi wedi ystyried…

Cymryd yswiriant Salwch Difrifol? Gellir ei gyfuno gyda'ch Yswiriant Bywyd fel opsiwn ychwanegol a bydd yn darparu yswiriant os byddwch yn cael salwch difrifol.

**I gael gwybod mwy, neu i gael dyfynbris**

natwest.com/insurance

0800 068 2161

Ewch i'ch cangen agosaf

# Salwch difrifol

## Diogelu'ch safon byw

Os cewch ddiagnosis o salwch difrifol, gall gael effaith ddybryd ar eich sefyllfa ariannol. Mae yswiriant Salwch Difrifol NatWest wedi'i gynllunio i ddarparu swm o arian os cewch ddiagnosis o un o'r 25 salwch difrifol sy'n cael eu cynnwys yn y polisi. Gellir ychwanegu yswiriant Salwch Difrifol NatWest fel opsiwn ychwanegol i aswiriant tymor Cyson neu Ostyngol.

- **Mae'n darparu swm o arian i helpu i ad-dalu morgais, benthyciadau, dyledion cardiau credyd neu ddyledion eraill**
- **Mae'n helpu tuag at dalu am ofal meddygol arbennig a nyrsio yn y cartref**
- **Mae'n helpu tuag at daliadau am addasu'ch cartref neu'ch car**
- **Bydd eich plant hefyd yn cael eu hyswirio'n awtomatig o dan y Budd-dal Salwch Difrifol Plant, am y swm isaf o £20,000 neu 50% o lefel yr yswiriant mae'r cynllun yn ei ddarparu**

Mae yswiriant Bywyd a Salwch Difrifol yn talu swm o arian os ydych chi'n marw neu'n cael diagnosis o salwch difrifol sy'n bodloni'r diffiniad yn ein polisi. Nid ydym yn yswirio ond rhag y mathau o salwch difrifol yr ydym yn eu diffinio yn ein polisi ac nid unrhyw rai eraill. Caiff lefel y premiwm ar gyfer yr opsiwn Salwch Difrifol ei hadolygu bob 5 mlynedd ac mae'n bosibl y bydd yn codi. Mae cyfyngiadau oed yn berthnasol.

### Ydych chi wedi ystyried...

Cymryd Yswiriant Bywyd NatWest?
Nid yw yswiriant salwch difrifol ar gael ond fel budd dewisol i Yswiriant Bywyd a phan gaiff ei gynnwys, mae'n golygu y bydd eich yswiriant bywyd yn darparu swm o arian os byddwch chi'n marw neu'n cael salwch difrifol.

# Cynllun Yswiriant Bywyd Gwarantedig

## Taliad arian parod i'ch anwyliaid

Mae'r Cynllun Yswiriant Bywyd Gwarantedig, a ddarperir gan Royal Scottish Assurance, yn cynnig ffordd hawdd a rhad i'ch teulu gael swm o arian pan fyddwch chi'n marw. Ar ôl y ddwy flynedd gyntaf mae lefel yr yswiriant wedi'i gwarantu am weddill eich bywyd, waeth beth fydd yn digwydd i'ch iechyd. Os byddwch yn marw cyn pen dwy flynedd ar ôl dechrau'ch cynllun, bydd eich ystâd yn cael ad-daliad llawn o unrhyw bremiymau a dalwyd - oni fyddwch yn marw oherwydd damwain, yna caiff yr holl swm gwarantedig ei dalu.

- **Dim angen cael archwiliad meddygol – a dim cwestiynau meddygol**
- **Gwarant y cewch eich derbyn os ydych rhwng 50 a 75 oed ac yn breswylydd y Deyrnas Unedig**
- **Gwarant na fydd y premiymau byth yn codi**
- **Cewch wneud cais dros y ffôn heddiw**

Byddwch yn talu cyn lleied â £10 y mis

Nid oes iddo werth o ran ei gyfnewid am arian a bydd eich yswiriant yn dod i ben os na chaiff y premiymau eu talu. Mae'n bosibl y byddwch yn talu mwy mewn premiymau na swm yr yswiriant ac mae'n bosibl y bydd chwyddiant yn lleihau gwerth yr yswiriant bywyd.

# Diogelu Incwm

## Incwm rheolaidd os na allwch weithio

Gall yswiriant Diogelu Incwm NatWest eich helpu i gynnal safon byw'ch teulu trwy ddarparu incwm misol, os yw'r rhan fwyaf o fathau o salwch neu anaf damweiniol yn eich rhwystro rhag gweithio.

- **Mae'n talu swm misol hyd nes i chi wella a gallu dychwelyd i'r gwaith, y daw'ch polisi i ben neu yr ydych yn marw**
- **Gallwch ddewis cael hyd at 60% o'ch enillion gros**
- **Yswiriant hyblyg – chi sy'n dewis am ba mor hir yr ydych eisiau yswiriant ac am ba mor hir yr ydych eisiau aros cyn i ni dalu incwm i chi**
- **Gall helpu tuag at dalu biliau'r cartref neu ddyledion neu gynnal eich safon byw**

defaqto 2010 ★★★★ INCOME PROTECTION

**Darperir gan Aviva Health UK Limited**

**I gael gwybod mwy, neu i gael dyfynbris**

natwest.com/insurance

0800 068 2161

Ewch i'ch cangen agosaf

# Beth mae angen i chi ei wneud nesaf

## 1 Penderfynu pa fath o yswiriant mae ei angen arnoch

Cartref, Car, Teithio, Bywyd neu Ddiogelu Incwm

## 2 Cysylltu â ni heddiw

**natwest.com/insurance**

**Yswiriant Cartref a Char**
**0800 051 0437**

**Minicom**
**0800 051 3030**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener, 9am–5pm dydd Sadwrn, 10am–5pm dydd Sul, 8am–6pm Gwyliau Banc (ac eithrio Nadolig a'r Calan).

**Yswiriant Teithio**
**0800 051 5401**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener, 9am–5pm dydd Sadwrn, 10am–5pm Gwyliau Banc (ac eithrio Nadolig a'r Calan).

**Yswiriant Bywyd a Diogelu Incwm**
**0800 068 2161**

**Minicom**
**0800 404 6161**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Iau, 8am–6pm dydd Gwener, 9am–5pm dydd Sadwrn.

**Cynllun Yswiriant Bywyd Gwarantedig**
**0800 015 7367**

**Minicom**
**0800 051 3030**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Iau, 8am–6pm dydd Gwener, 9am–5pm dydd Sadwrn.

**Ewch i'ch cangen NatWest agosaf a siarad â chynghorydd**


## 3 Cael eich gostyngiad

Os oes gennych bolisi yswiriant gyda NatWest eisoes, neu os ydych yn aelod Advantage (Mae ffioedd misol yn daladwy), mae gennych chi hawl i ostyngiadau ar eich premiwm ar gyfer yswiriant cartref, car a theithio.

**Ffoniwch ni heddiw i weld a allem ni arbed arian i chi.**


# Mae mwy i NatWest…

## Gallwn hefyd eich helpu gyda


















# Gwybodaeth bwysig

Mae'n bosibl y caiff galwadau eu recordio. Mae'r manylion yn gywir ar adeg argraffu hwn.

Mae Yswiriant Moduron, Cartref a Theithio NatWest yn cael ei danysgrifennu gan UK Insurance Limited, The Wharf, Neville Street, Leeds LS1 4AZ. Cofrestredig yn Lloegr rhif 1179980, aelod o'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Yn amodol ar ein meini prawf arferol o ran tanysgrifennu.

**Yswiriant Car**
Nid yw Yswiriant Car NatWest ar gael yng Ngogledd Iwerddon.
Mae unrhyw hawl i ostyngiad dim hawliadau yn cael ei gymhwyso i'r premiwm terfynol h.y. ar ôl i unrhyw ostyngiadau eraill, megis gostyngiad Aelodau Advantage (Mae ffioedd misol yn daladwy), gael eu cymhwyso eisoes. Mae'r gostyngiad yn amodol ar leiafswm premiwm.

**Yswiriant Bywyd ac Yswiriant Salwch Difrifol**
Mae cyfyngiadau oed yn berthnasol, mae ceisiadau'n amodol ar danysgrifennu. Darperir gan National Westminster Life Assurance Ltd.

**Cynllun Yswiriant Bywyd Gwarantedig**
Darperir gan Royal Scottish Assurance plc.

**Diogelu Incwm**
Mae Cynllun Diogelu Incwm NatWest yn cael ei weinyddu gan Aviva Health UK Limited, Chilworth House, Hampshire Corporate Park, Templars Way, Eastleigh, Hampshire SO53 3RY. Cofrestredig yn Lloegr rhif 2464270. Swyddfa Gofrestredig: 8 Surrey Street, Norwich NR1 3NG. Mae'r yswiriant hwn yn cael ei danysgrifennu gan Aviva Life & Pensions UK Limited. Cofrestredig yn Lloegr rhif 3253947.
Swyddfa Gofrestredig: 2 Rougier Street, Caerefrog YO90 1UU. Mae Aviva Health UK Limited ac Aviva Life & Pensions UK Limited wedi'u hawdurdodi ac yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.
Aelodau o Gymdeithas Yswirwyr Prydain. Aelodau o Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

# Mae'n hawdd gwneud cais

## natwest.com/insurance

**Yswiriant Cartref a Char**
**0800 051 0437**

**Minicom**
**0800 051 3030**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener, 9am–5pm dydd Sadwrn, 10am–5pm dydd Sul,
8am–6pm Gwyliau Banc (ac eithrio Nadolig a'r Calan).

**Yswiriant Teithio**
**0800 051 5401**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener, 9am–5pm dydd Sadwrn,
10am–5pm Gwyliau Banc (ac eithrio Nadolig a'r Calan).

**Yswiriant Bywyd a Diogelu Incwm**
**0800 068 2161**

**Minicom**
**0800 404 6161**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Iau,
8am–6pm dydd Gwener, 9am–5pm dydd Sadwrn.

**Cynllun Yswiriant Bywyd Gwarantedig**
**0800 015 7367**

**Minicom**
**0800 051 3030**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Iau,
8am–6pm dydd Gwener, 9am–5pm dydd Sadwrn.

## Ewch i'ch cangen NatWest agosaf

National Westminster Bank Plc, 135 Bishopsgate, Llundain EC2M 3UR. Rhif Cofrestredig: 929027, Lloegr.
NWB4428 27 Awst 2010